# EVANS, JOHN (1815 - 1891), archddiacon Meirionnydd

**Enw:** John Evans
**Dyddiad geni:** 1815
**Dyddiad marw:** 1891
**Priod:** Mary Evans
**Rhiant:** Ann Evans (née Owen)
**Rhiant:** John Evans
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** archddiacon Meirionnydd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** John Williams James

Ganwyd 4 Mawrth 1815 yn Tynycoed, Abererch, mab John Evans, Tanycoed, Llanfair, Meirionnydd, ac Ann, merch John Owen, Crafnant, Llanfair Harlech. Yr oedd ei fam yn ddisgynnydd o Edmwnd Prys.

Addysgwyd ef yn ysgol Biwmares. Aeth i swyddfa'r cyfreithiwr David Williams, aelod seneddol dros sir Feirionnydd. Yr oedd ei wraig, Mary, o Saethon, yn gyfnither i David Williams yr aelod seneddol. Oddi yno i Goleg y Drindod, Dulyn, lle y graddiodd (B.A.) yn 1841.

Ordeiniwyd ef i guradiaeth Llanbedr y Cennin (Sir Gaernarfon); mudodd i guradiaeth Pentrefoelas (sir Ddinbych); 1857, rheithor Machynlleth a deon gwlad Cyfeiliog; 1862, rheithor Llanllechid; 1866, archddiacon Meirionnydd; 1888, rheithor Aber. Bu farw 24 Mai 1891. Yr oedd yn offeiriad diwyd mewn plwyf ac esgobaeth, yn ysgolhaig medrus, ac yn hynafiaethydd gwych. Ysgrifennodd 'Pentrefoelas' (yn *Cambrian Journal*, 1854 ac 1855), ac 'Ysbytty Ifan and the Hospitallers' (yn *Archæologia Cambrensis*, 1860).

## Awdur

**Y Canghellor John Williams James**

## Ffynonellau


*North Wales Chronicle*, Mehefin 1891

*Y Geninen*, 1894

T. Morgan, *Enwogion Cymreig 1700-1900* (1907)

Llythyr oddi wrth ei   yr, y Parch. C. Beverly Davies, Hammersmith


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: John Evans, Archddiacon Meirionnydd


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/



Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu